27 Ebrill 2021

Adolygiad Sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Mae Cymwysterau Cymru yn cynnal adolygiad sector o gymwysterau a'r system gymwysterau yn y sector Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo. Dyma'r pumed yn ein cyfres o adolygiadau sector. Fel rhan o'r adolygiad hwn byddwn yn cynnal adolygiad technegol o gymwysterau yn y sector a gynigir gan gyrff dyfarnu cydnabyddedig yng Nghymru yn hydref 2021. Bydd arbenigwyr asesu yn ymuno â thîm o arbenigwyr Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo a fydd yn adolygu manylebau, deunyddiau asesu, dogfennau sicrhau ansawdd a sampl o waith asesedig dysgwyr.

Bydd yr adolygiad technegol yn canolbwyntio ar gymwysterau a ddyfernir yn y niferoedd mwyaf mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach a darparwyr dysgu seiliedig ar waith yng Nghymru. Byddwn yn cysylltu â chyrff dyfarnu sy'n cynnig y cymwysterau hyn ym mis Awst 2021 i ofyn am y dystiolaeth angenrheidiol i'r adolygiad technegol ddechrau ym mis Hydref 2021.

Er mwyn cefnogi adolygiad sector ym maes Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo byddem yn ddiolchgar am unrhyw ddiweddariadau a allai fod gennych ar ddatblygiad y ddarpariaeth gyfredol o gymwysterau yn y sector hwn. Os ydych yn gweithio ar unrhyw ddatblygiadau mewn cymwysterau Teithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo ar hyn o bryd, a fyddech cystal â rhoi gwybod i ni.

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

www.cymwysteraucymru.org

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu ymholiadau am yr adolygiad sector hwn, cysylltwch â ni yn travelandtourism@qualificationswales.org

Yn gywir

Dan Tromans, Uwch Reolwr Cymwysterau, Cymwysterau Cymru